OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 Rhif (Cy. )

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt), Gwynedd i Gyffordd 15 (Cylchfan Llanfairfechan), Conwy) (Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2021

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *27 Ionawr 2021* |
| *Yn dod i rym* | *1 Chwefror 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A55, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Cychwyn a Dehongli**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt), Gwynedd i Gyffordd 15 (Cylchfan Llanfairfechan), Conwy) (Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2021 a daw i rym ar 1 Chwefror 2021.

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 1 Chwefror 2021 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S.1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 30(1) o Atodlen 11 iddi (p. 32), mae'r pwerau hyn bellach wedi eu rhoi i Weinidogion Cymru o ran Cymru.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2021 No. (W. )

# ROAD TRAFFIC, WALES

## The A55 Trunk Road (Junction 11 (Llys y Gwynt Interchange), Gwynedd to Junction 15 (Llanfairfechan Roundabout), Conwy) (Temporary Traffic Prohibitions) Order 2021

| | |
|---|---|
| *Made* | *27 January 2021* |
| *Coming into force* | *1 February 2021* |

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A55 trunk road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**), make this Order.

**Title, Commencement and Interpretation**

**1.** The title of this Order is the A55 Trunk Road (Junction 11 (Llys y Gwynt Interchange), Gwynedd to Junction 15 (Llanfairfechan Roundabout), Conwy) (Temporary Traffic Prohibitions) Order 2021 and it comes into force on 1 February 2021.

**2.** In this Order—

"the trunk road" *("y gefnffordd")* means the A55 Chester to Bangor trunk road;

(**1**) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I.1999/672, and section 162 of, and paragraph 30(1) of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now conferred upon the Welsh Ministers in relation to Wales.

arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A55 Caer i Fangor.

**Gwaharddiadau**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i’r Gorchymyn hwn.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i’r Gorchymyn hwn.

**5.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i’r Gorchymyn hwn.

**6.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd er mwyn troi i’r dde neu wneud tro pedol o un gerbytffordd i un arall drwy’r bylchau yn y llain ganol ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i’r Gorchymyn hwn.

**Cymhwyso**

**7.** Ni fydd y gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

**Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn**

**8.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 27 Ionawr 2021



*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

“works period” *(“cyfnod y gwaith”)* means the period commencing at 00:01 hours on 1 February 2021 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

**Prohibitions**

**3.** No person may, during the works period, drive any vehicle on the lengths of the trunk road specified in Schedule 1 to this Order.

**4.** No person may, during the works period, ride any pedal cycle on the lengths of the trunk road specified in Schedule 1 to this Order.

**5.** No pedestrian may, during the works period, proceed on the lengths of the trunk road specified in Schedule 1 to this Order.

**6.** No person may, during the works period, drive any vehicle so as to make a right-hand turn or U-turn from one carriageway to another through the gaps in the central reservation on the length of the trunk road specified in Schedule 2 to this Order.

**Application**

**7.** The prohibitions in articles 3, 4, 5 and 6 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

**Duration of this Order**

**8.** The maximum duration for this Order is 18 months.

Signed under authority of the Minister for Economy, Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated 27 January 2021



*Nicci Hunter*
Business Team Leader
Welsh Government

## ATODLEN 1
**Gwahardd cerbydau, beicwyr a cherddwyr dros dro**

Y darn o gerbytffyrdd tua'r dwyrain a thua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt Cyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt), Gwynedd hyd at ganolbwynt Cyffordd 15 (Cylchfan Llanfairfechan), Conwy, gan gynnwys y ffyrdd ymuno tua'r dwyrain a thua'r gorllewin o Gyffordd 11 hyd at Gyffordd 15.

## ATODLEN 2
**Gwahardd troi i'r dde/troeon pedol dros dro**

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt Cyffordd 12 (Tal-y-bont) hyd at ganolbwynt Cyffordd 13 (Abergwyngregyn).

## SCHEDULE 1
**Temporary prohibition of vehicles, cyclists & pedestrians**

The length of the eastbound and westbound carriageways of the trunk road that extends from the centre of Junction 11 (Llys y Gwynt Interchange), Gwynedd to the centre of Junction 15 (Llanfairfechan Roundabout), Conwy, including the eastbound and westbound entry slip roads from Junctions 11 to 15.

## SCHEDULE 2
**Temporary prohibition of right-hand/U-turns**

The length of the trunk road that extends from the centre of Junction 12 (Tal-y-bont) to the centre of Junction 13 (Abergwyngregyn).

## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A55 (CYFFORDD 11 (CYFNEWIDFA LLYS Y GWYNT), GWYNEDD I GYFFORDD 15 (CYLCHFAN LLANFAIRFECHAN), CONWY) (GWAHARDDIADAU TRAFFIG DROS DRO) 2021

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn am fod gwaith yn cael ei wneud ar gefnffordd yr A55, neu gerllaw iddi, rhwng Cyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt), Gwynedd a Chyffordd 15 (Cylchfan Llanfairfechan), Conwy.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd, pob beiciwr a a phob cerddwr rhag mynd ar y darnau o gefnffordd yr A55 a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Disgrifir y llwybrau eraill yn yr Atodlen honno. Ni fydd y cerbytffyrdd tua'r dwyrain a thua'r gorllewin ar gau ar yr un pryd.

Bydd pob cerbyd hefyd wedi ei wahardd rhag troi i'r dde/gwneud troeon pedol drwy'r bylchau yn llain ganol y darn o gefnffordd yr A55 a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn.

Disgwylir i'r Gorchymyn ddod i rym am 00:01 o'r gloch ar 1 Chwefror 2021 a disgwylir i'r gwaharddiadau dros dro weithredu fel y bo angen a phan fo arwyddion yn dangos hynny am gyfnod o hyd at 18 mis ar y mwyaf.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**



**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

### ATODLEN 1
### Gwahardd cerbydau, beicwyr a cherddwyr dros dro

Y darn o gerbytffyrdd tua'r dwyrain a thua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt Cyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt), Gwynedd hyd at

## THE A55 TRUNK ROAD (JUNCTION 11 (LLYS Y GWYNT INTERCHANGE), GWYNEDD TO JUNCTION 15 (LLANFAIRFECHAN ROUNDABOUT), CONWY) (TEMPORARY TRAFFIC PROHIBITIONS) ORDER 2021

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A55 trunk road between Junction 11 (Llys y Gwynt Interchange), Gwynedd and Junction 15 (Llanfairfechan Roundabout), Conwy.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles, cyclists and pedestrians from proceeding on the lengths of the A55 trunk road described in Schedule 1 to this Notice. The alternative routes are described therein. The eastbound and westbound carriageways will not be closed at the same time.

All vehicles will also be prohibited from making right-hand/U-turns through the gaps in the central reservation of the length of the A55 trunk road described in Schedule 2 to this Notice.

The Order is expected to come into force at 00:01 hours on 1 February 2021 and the temporary prohibitions are expected to operate as required and when signed for up to a maximum period of 18 months.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**



**J SADDLER**
Transport
Welsh Government

### SCHEDULE 1
### Temporary prohibition of vehicles, cyclists & pedestrians

The length of the eastbound and westbound carriageways of the trunk road that extends from the centre of Junction 11 (Llys y Gwynt Interchange),

ganolbwynt Cyffordd 15 (Cylchfan Llanfairfechan), Conwy, gan gynnwys y ffyrdd ymuno tua'r dwyrain a thua'r gorllewin o Gyffordd 11 hyd at Gyffordd 15.

Gwynedd to the centre of Junction 15 (Llanfairfechan Roundabout), Conwy, including the eastbound and westbound entry slip roads from Junctions 11 to 15.

**Y llwybrau eraill**

Tra bod y gerbytffordd tua'r dwyrain ar gau, y llwybr arall o Gyffordd 11 fydd mynd ar yr A5 tua'r de-ddwyrain i Fetws-y-coed a'r A470 tua'r gogledd i ailymuno â'r A55 wrth Gyffordd 19 (Cyfnewidfa Llansanffraid Glan Conwy).

Dylai traffig sy'n teithio tua'r dwyrain ac sy'n dymuno ymuno â'r A55 wrth Gyffyrdd 12 a 13 ymuno â'r gerbytffordd gyferbyn, ymadael wrth Gyffordd 11 a dilyn y llwybr a ddisgrifir uchod. Dylai traffig sy'n teithio tua'r dwyrain o Gyffordd 14 ddilyn Ffordd Aber a Ffordd Penmaenmawr i ymuno â'r A55 wrth Gyffordd 15.

Pan fydd y gerbytffordd tua'r gorllewin ar gau, y llwybr arall o Gyffordd 15 fydd mynd ar yr A55 tua'r dwyrain i Gyffordd 19, ymadael yno a dilyn yr A470 tua'r de i Fetws-y-coed a'r A5 tua'r gogledd-orllewin i ailymuno â'r A55 wrth Gyffordd 11.

Dylai traffig sy'n teithio tua'r gorllewin ac sy'n dymuno ymuno â'r A55 wrth Gyffyrdd 14 a 13 ymuno â'r gerbytffordd gyferbyn, ymadael wrth Gyffordd 19 a dilyn y llwybr a ddisgrifir uchod. Dylai traffig sy'n teithio tua'r gorllewin o Gyffordd 12 ddilyn y ffordd sirol drwy Dan-y-lôn a Thal-y-bont i Gylchfan Llandygai a'r A5 tua'r de i ymuno â'r A55 wrth Gyffordd 11.

**Alternative routes**

Whilst the eastbound carriageway is closed, the alternative route from Junction 11 is via the south-eastbound A5 to Betws-y-Coed and northbound A470 to rejoin the A55 at Junction 19 (Glan Conwy Interchange).

Eastbound traffic wishing to join the A55 at Junctions 12 and 13 should join the opposite carriageway, exit at Junction 11 and follow the route described above. Eastbound traffic from Junction 14 should follow Aber Road and Penmaenmawr Road to join the A55 at Junction 15.

During a westbound carriageway closure, the alternative route from Junction 15 is via the eastbound A55 to Junction 19, exit and follow the southbound A470 to Betws-y-Coed and north-westbound A5 to rejoin the A55 at Junction 11.

Westbound traffic wishing to join the A55 at Junctions 14 and 13 should join the opposite carriageway, exit at Junction 19 and follow the route described above. Westbound traffic from Junction 12 should follow the county road via Tan-y-lôn and Tal-y-bont to Llandygai Roundabout and the southbound A5 to join the A55 at Junction 11.

## ATODLEN 2
## Gwahardd troi i'r dde/troeon pedol dros dro

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt Cyffordd 12 (Tal-y-bont) hyd at ganolbwynt Cyffordd 13 (Abergwyngregyn).

## SCHEDULE 2
## Temporary prohibition of right-hand/U-turns

The length of the trunk road that extends from the centre of Junction 12 (Tal-y-bont) to the centre of Junction 13 (Abergwyngregyn).